# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## *CC(3)*-14-*09* - Papur 3– 14 Hydref 2009

### Craffu ar Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2010-11 - Tystiolaeth gan y Gweinidog dros Dreftadaeth

**Cyflwyniad**

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth ariannol gefndir i'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ynghylch cynlluniau gwario'r Adran Dreftadaeth fel y'u disgrifir yn y gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ddechrau mis Hydref.

2. Rhoddir manylion y prif feysydd gwariant o fewn y Meysydd Rhaglenni Gwariant yn Atodiad A.

3. Yn unol â'r arfer ar draws Llywodraeth y Cynulliad, mae'r Prif Grŵp Gwariant wedi'i aildrefnu a'i rannu'n Feysydd Rhaglenni Gwariant newydd, ac mae rhai o'r Meysydd hynny wedi'u rhannu'n Weithredoedd. Mae Atodiad B yn dangos y Gyllideb ddrafft, yn ôl Meysydd Rhaglenni Gwariant ac yn ôl Gweithredoedd o fewn y Meysydd hynny. Darperir mwy o fanylder yn Atodiad C ac Atodiad D.

**Cefndir a Chrynodeb**

4. Mae amgylchiadau ariannol anodd wedi bod yn gefndir i'r cynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft. Gellir crynhoi ffigurau'r gyllideb ddrafft fel a ganlyn:

| | **Cyllideb 2009-10 £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2010-11 £'000** | **Newidiadau £'000** |
|---|---|---|---|
| Refeniw | 145,166 | 147,371 | 2,205 |
| Cyfalaf | 17,297 | 15,122 | (2,175) |
| | **162,463** | **162,493** | **30** |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 21,754 | 21,754 | - |
| **Cyfanswm** | **184,217** | **184,247** | **30** |

5. Mae ffigur cyfalaf 2009-10, sef £17,297k yn cynnwys dyraniad ychwanegol o £1,000k a wnaed yn ystod y flwyddyn fel rhan o'r Cynnig Cyllideb Atodol.

6. Yn gryno felly, mae £2,205k yn fwy o gyllid Refeniw wedi'i neilltuo i Brif Grŵp Gwariant Treftadaeth o'i gymharu â 2009-10. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o £864k yn fwy na'r cynnydd o £1,341k a nodwyd yn ffigurau dangosol 2010-11.

7. Mae'r cyllid cyfalaf wedi gostwng £2,175k, gan adlewyrchu effaith penderfyniadau ariannol ar lefel y DU, a'r ffaith i ddyraniadau cyfalaf untro gael eu gwneud i'r Prif Grŵp Gwariant yn 2009-10.

**Cynigion ar gyfer defnyddio'r cyllid ychwanegol**

8. Mae'r rhan fwyaf o gyllideb y portffolio Treftadaeth yn cael ei dalu i Gyrff Cyhoeddus Llywodraeth y Cynulliad (CNLCau) a chyrff allanol eraill fel Canolfan Mileniwm Cymru, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru. Mae fy nghynigion ar gyfer defnyddio'r arian ychwanegol yn adlewyrchu hyn.

9. Bydd ein gallu i ddal ati i sicrhau'r amrywiaeth eang o ganlyniadau sy'n nodweddu'r gyllideb Treftadaeth yn dibynnu'n drwm ar ein gallu i sicrhau arbedion trwy fod yn effeithlon, hynny fel Adran a hefyd trwy'r cyrff rydym yn eu hariannu. Bydd disgwyl i'r CNLCau sy'n cael eu hariannu trwy'r gyllideb hon sicrhau arbedion yn eu costau rhedeg ac yng nghyllidebau eu rhaglenni am y flwyddyn nesaf a thu hwnt.

10. Rwyf hefyd yn awyddus i weld synergeddau rhwng rhaglenni gwahanol o fewn y portffolio Treftadaeth. Mae angen inni weithredu ar ffrynt eang i wneud y gorau o'r cyfleoedd a gynigir gan Dwristiaeth Ddiwylliannol. Mae gan raglenni Celf a Chwaraeon hwythau eu cyfraniad i'w wneud ar draws nifer o raglenni gwario'r Llywodraeth gan gynnwys iechyd y cyhoedd, adfywio cymunedol ac addysg.

11. Gan ddatblygu ar hynny, yr egwyddorion sydd wedi llywio fy mhenderfyniadau wrth ddyrannu'r arian ychwanegol yw:

    - pwysigrwydd yr ymrwymiadau yn Cymru'n Un sy'n dod o dan y portffolio Treftadaeth;

    - gwneud y mwyaf o gyfraniad y Prif Grŵp Gwariant at wrthweithio effeithiau'r dirwasgiad economaidd; a

    - targedu prosiectau tymor byr sy'n gallu dod â buddiannau tymor hir, o gofio na allwn roi addewidion ynghylch ariannu ar ôl 2010-11.

12. Rwy'n cynnig bod y refeniw ychwanegol ar gyfer 2010-11 yn cael ei wario fel a ganlyn:

i. **Costau ailstrwythuro CNLC (£670k neu 1.5%)** - rwy'n cynnig dyrannu swm ychwanegol sydd gyfwerth ag 1.5% o gostau rhedeg CNLC i dalu am eu hailstrwythuro yn 2010-11. Bydd hyn yn sicrhau bod y prif gyrff diwylliannol yn gallu parhau i wasanaethu pobl Cymru yn 2009-10 a thu hwnt, gan gynnwys cyflawni ymrwymiadau Cymru'n Un. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i dargedu gweithgareddau sy'n 'buddsoddi i arbed' ac a fydd yn arwain at arbedion tymor hir ac at eu cael i wneud eu gwaith yn fwy effeithlon.

ii. **Cryfhau rhwydweithiau creadigol yn y Celfyddydau (£285k)** - rwy'n cynnig cynnydd o 1% yng nghyllideb refeniw Cyngor y Celfyddydau. Bydd yr arian hwn yn cael ei dargedu i ddatblygu rhwydweithiau creadigol a fydd yn cryfhau effaith gymdeithasol ac economaidd yn ogystal â chelfyddydol cyrff unigol trwy gydweithio gwell. Bydd yr arian yn targedu'r cyrff hynny sy'n gallu cynnig arweiniad creadigol ar draws ffurfiau celf penodol neu mewn ardaloedd arbennig.

**iii. Celfyddydau a Phobl Ifanc tan Anfantais (£200k)** - rhaglen wedi'i thargedu i wella gallu cyrff celfyddydol i weithio â phartneriaid eraill i gynnig cyfleoedd creadigol ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant, gan ddefnyddio partneriaethau Cyrraedd y Nod.

ii. **Cynllun Cyhoeddwyr Cyngor Llyfrau Cymru (£300k)** - Mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi dangos dros y blynyddoedd bod prosiectau sy'n targedu cyhoeddwyr (llyfrau Cymraeg a Saesneg) yn arwain at fanteision tymor hirach gan gynnwys cynyddu gwerthiant a gwella'r cynnyrch - ac yn gwneud cyhoeddwyr Cymru yn fwy cystadleuol. Ar sail eu gwaith yn y maes hwn a chyfraniad prosiect o'r fath at gynnal swyddi mewn ardaloedd gwledig, rwy'n cynnig neilltuo £300,000 ar gyfer rhaglen wedi'i thargedu o gymorth cryfach i olygyddion.

iii. **Datblygu Twristiaeth / Cwpan Ryder (£130k)** - rwy'n cynnig cynnydd o 1% yn y gyllideb Twristiaeth. Gyda'r arian hwn, bydd Croeso Cymru yn gallu cryfhau ei gyfraniad at y paratoadau ar gyfer Cwpan Ryder 2010. Bydd yr arian ychwanegol yn mynd i'r rhaglen hyfforddi gwirfoddolwyr sy'n cael ei threfnu i helpu trefnwyr y digwyddiad. Yr amcan yw adeiladu ar yr argraff dda a wnaed ar ymwelwyr gan y gwirfoddolwyr ym mhrawf cynta'r Lludw. Fe fydd Cwpan Ryder, wrth gwrs. yn ddigwyddiad llawer mwy.

iv. **Targedu cymorth ar gyfer prosiectau penodol (£640k)** - Rwy'n cynnig neilltuo £640k wedi'i dargedu i foderneiddio'r trefniadau gweithio yn y sector treftadaeth ac at hyrwyddo mwy o weithio mewn partneriaeth.  Bydd yr arian yn cael ei wario i gefnogi'r cynigion a ddaw o'r trafodaethau rhwng cyrff treftadaeth a diwylliannol i wneud y mwyaf o effaith cydweithio gwell.

**Cyfalaf**

13. Mae'r cyllid cyfalaf yn gostwng £2,175k o'i gymharu â 2009-10. Fodd bynnag, mae £15.122m, ffigur y gyllideb cyfalaf yn y Gyllideb Ddrafft yn dal i fod yn uwch na chyllideb 2008/09, sef £14,997k.

14. O'i gymharu â 2009-10, mae'r ffigur cyfalaf wedi gostwng £2,175k, gan adlewyrchu gostyngiad o £729k o ganlyniad i effaith penderfyniadau ariannol ar lefel y  DU; a'r ffaith bod y Prif Grŵp Gwariant wedi derbyn £446k o ddyraniad cyfalaf ychwanegol yn 2009-10 o rowndiau cynlluniau cynharach, a £1,000 yn ychwanegol yn ystod y flwyddyn, sy'n cael ei wario ar bafiliwn Llangollen.

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol**

15. Mae hyn yn cynrychioli'r ddarpariaeth yn y cyfrif sydd ei hangen i adlewyrchu'r diffyg yng Nghynlluniau Pensiwn Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'n eitem nad yw'n arian parod.

.

**Atodiad A**

## Prif feysydd gwariant y Meysydd Rhaglenni Gwariant

### Hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg trwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac eraill

Mae'r weithred hon yn cynnwys cyllido Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cyngor Llyfrau Cymru a Chronfa Cymru Ddwyieithog.

### Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd

Mae'r Weithred hon yn cefnogi darparu'r gwasanaeth Amgueddfeydd, Archifdai a Llyfrgelloedd yng Nghymru gan gynnwys cyllido Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'n cynnwys hefyd cyllido cynlluniau grant CyMAL a llyfrgelloedd Cymru.

### Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf trwy Gyngor y Celfyddydau ac eraill.

Mae'r Weithred hon yn cefnogi'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru, gan gynnwys cyllido Cyngor Celfyddydau Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru a Gerddi Botanig Cymru .

### Darparu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol effeithiol

Mae'r Weithred hon yn darparu Strategaeth Dringo'n Uwch Llywodraeth y Cynulliad ac yn cyllido Cyngor Chwaraeon Cymru.

### Diogelu, gwarchod a chynnal yr amgylchedd hanesyddol a hybu mynediad iddo

Mae'r Weithred yn cyllido Cadw (gwasanaeth henebion Llywodraeth y Cynulliad) a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

### Twristiaeth

Mae'r Weithredu yn darparu'r nawdd ar gyfer hyrwyddo a marchnata Cymru fel cyrchfan i ymwelwyr o'r DU a thu hwnt, ac ar gyfer annog y pedair Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol i weithio ar lefel Cymru gyfan.

**Atodiad B**

| Dyraniadau i Weithredoedd Treftadaeth | £'000 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2009-10 | | | 2010-11 | | |
| **Terfyn Gwariant Ariannol** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| **Hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r Gymraeg trwy ByIG ac eraill** | **17,545** | **125** | **17,670** | **17,949** | **125** | **18,074** |
| | | | | | | |
| Annog defnyddio'r Gwasanaethau Amgueddfeydd, a Dysgu Gydol Oes trwyddynt | 29,735 | 2,650 | 32,385 | 29,981 | 2,000 | 31,981 |
| Annog defnyddio'r Gwasanaethau Llyfrgelloedd, a Dysgu Gydol Oes trwyddynt | 14,310 | 1,622 | 15,932 | 14,418 | 1,502 | 15,920 |
| Arweiniad strategol i wasanaethau'r amgueddfeydd, archifdai a llyfrgelloedd. | 2,250 | 3,400 | 5,650 | 2,265 | 3,100 | 5,365 |
| **Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd** | **46,295** | **7,672** | **53,967** | **46,664** | **6,602** | **53,266** |
| | | | | | | |
| **Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf trwy Gyngor y Celfyddydau ac eraill** | **35,751** | **2,345** | **38,096** | **36,780** | **1,090** | **37,870** |
| | | | | | | |
| **darparu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol effeithiol** | **26,852** | **1,170** | **28,022** | **27,145** | **1,170** | **28,315** |
| | | | | | | |
| **Diogelu, gwarchod a chynnal yr amgylchedd hanesyddol a hybu mynediad iddo** | **5,789** | **5,985** | **11,774** | **5,769** | **6,135** | **11,904** |
| | | | | | | |
| Cynyddu'r galw gan ymwelwyr a nifer yr ymholiadau sy'n troi'n ymweliadau | 12,934 | 0 | 12,934 | 8,539 | 0 | 8,539 |
| Datblygu Profiad Ymwelwyr | 0 | 0 | 0 | 4,525 | 0 | 4,525 |
| **Twristiaeth** | **12,934** | **0** | **12,934** | **13,064** | **0** | **13,064** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM Terfyn Gwariant Ariannol** | **145,166** | **17,297** | **162,463** | **147,371** | **15,122** | **162,493** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Annog defnyddio'r Gwasanaethau Amgueddfeydd, a Dysgu Gydol Oes trwyddynt | 11,754 | 0 | **11,754** | 11,754 | 0 | **11,754** |
| Annog defnyddio'r Gwasanaethau Llyfrgelloedd, a Dysgu Gydol Oes trwyddynt | 10,000 | 0 | **10,000** | 10,000 | 0 | **10,000** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | **21,754** | **0** | **21,754** | **21,754** | **0** | **21,754** |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **166,920** | **17,297** | **184,217** | **169,125** | **15,122** | **184,247** |